

Grŵp: I
Lliw: Gwyrdd

Gellir defnyddio gwyn ar
gyfer Crist y Brenin.

Gellir defnyddio coch yn
Nhymor y Deyrnas.

Blwyddyn A

Y Deyrnas 4 Crist y Brenin

Cyfoes

Dad tragwyddol,
yr esgynnodd dy Fab Iesu Grist i orseddfainc nef
iddo deyrnasu dros bob dim yn Arglwydd ac yn Frenin:
cadw'r Eglwys yn undod yr Ysbryd
ac yn rhwymyn tangnefedd,
a dwg yr holl greadigaeth
i addoli wrth ei draed ef;
caniatâ hyn er mwyn dy Fab Iesu Grist,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r deyrnas, y gallu a'r gogoniant,
yn oes oesoedd.

Ôl Gymun 141

141 Ôl Gymun

Deffro, Arglwydd, erfyniwn arnat,
ewyllys dy bobl fyddlon;
fel, gan ddwyn ffrwyth gweithredoedd da yn helaeth,
y cânt eu gwobrwyo'n helaeth gennyt ti;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Gellir defnyddio'r Weddi Ôl Gymun hon, ynghyd â'r fawlgan "i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân,
y bo'r Deyrnas, y gallu a'r gogoniant, yn oes oesoedd." fel y Colect yn y Foreol a'r Hwyrrol
Weddi yn ystod yr wythnos hon.*

Blwyddyn A – Y Deyrnas 4 – Crist y Brenin

Eseciel 34. 11-16, 20-24

"Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW: Byddaf fi fy hunan yn chwilio am fy mhraidd ac yn gofalu amdanynt. Fel y mae bugail yn gofalu am ei braidd gwasgaredig pan fydd yn eu msg, felly y byddaf finnau'n gofalu am fy mhraidd; byddaf yn eu gwaredu o'r holl fannau lle gwasgarwyd hwy ar ddydd cymylau a thywyllwch. Dygaf hwy allan o fysg y bobloedd, a'u casglu o'r gwledydd, a dod â hwy i'w gwlad eu hunain; bugeiliaf hwy ar fynyddoedd Israel, ger y nentydd ac yn holl fannau cyfannedd y wlad. Gofalaf amdanynt mewn porfa dda, a bydd uchelfannau mynyddoedd Israel yn dir pori iddynt; yno byddant yn gorwedd ar dir pori da ac yn ymborthi ar borfa fras ar fynyddoedd Israel. Byddaf fi fy hun yn bugeilio fy nefaid ac yn gwneud iddynt orwedd, medd yr Arglwydd DDUW. Byddaf yn ceisio'r ddafad golledig ac yn dychwelyd y wasgaredig; byddaf yn rhwymo'r ddolurus ac yn cryfhau'r wan. Ond byddaf yn difa'r fras a'r gref; byddaf yn eu bugeilio â chyfiawnder.

"Felly, fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW wrthynt: Byddaf fi fy hunan yn barnu rhwng defaid bras a defaid tenau. Oherwydd eich bod yn gwthio ag ystlys ac ysgwydd, ac yn twlcio'r gweiniaid â'ch cyrn nes ichwi eu gyrru ar wasgar, byddaf yn gwaredu fy mhraidd, ac ni fyddant mwyach yn ysglyfaeth, a byddaf yn barnu rhwng y naill ddafad a'r llall.

Byddaf yn gosod arnynt un bugail, fy ngwas Dafydd, a bydd ef yn gofalu amdanynt; ef fydd yn gofalu amdanynt ac ef fydd eu bugail. Myfi, yr ARGLWYDD, fydd eu Duw, a'm gwas Dafydd fydd yn dywysog yn eu msg; myfi, yr ARGLWYDD, a lefarodd.

Salm 93

Testun Beiblaidd

1-7a

Dewch, canwn yn llawen i'r ARGLWYDD, rhown floedd o orfoledd i graig ein hiachawdwriaeth. Down i'w bresenoldeb â diolch, gorfoleddwn ynddo â chaneuon mawl. Oherwydd Duw mawr yw'r ARGLWYDD, a brenin mawr goruwch yr holl dduwiau. Yn ei law ef y mae dyfnderau'r ddaear, ac eiddo ef yw uchelderau'r mynyddoedd. Eiddo ef yw'r môr, ac ef a'i gwnaeth; ei ddwylo ef a greodd y sychdir. Dewch, addolwn ac ymgrymwn, plygwn ein gliniau gerbron yr ARGLWYDD a'n gwnaeth. Oherwydd ef yw ein Duw, a ninnau'n bobl iddo a defaid ei borfa;

7b

heddiw cewch wybod ei rym, os gwrandewch ar ei lais.

Effesiaid 1. 15-23

Am hynny, o'r pryd y clywais am y ffydd sydd gennych yn yr Arglwydd Iesu, ac am eich cariad tuag at yr holl saint, nid wyf fi wedi peidio â diolch amdanoch, gan eich galw i gof yn fy ngweddiâu. A'm gweddi yw, ar i Dduw ein Harglwydd Iesu Grist, Tad y gogoniant, roi i chwi, yn eich adnabyddiaeth ohono ef, yr Ysbryd sy'n rhoi doethineb a datguddiad. Bydded iddo oleuo llygaid eich deall, a'ch dwyn i wybod beth yw'r gobraith sy'n ymhlyg yn ei alwad, beth yw cyfoeth y gogoniant sydd ar gael yn yr etifeddiaeth y mae'n ei rhoi i chwi ymhlith y saint, a beth yw aruthrol fawredd y

Yr Eglwys yng Nghymru: Gair yr Arglwydd 2011.

Hawlfraint © Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011.

Blwyddyn A – Y Deyrnas 4 – Crist y Brenin

gallu sydd ganddo o'n plaid ni sy'n credu, y grymuster hwnnw a gyflawnodd yng ngrym ei nerth yng Nghrist pan gyfododd ef oddi wrth y meirw, a'i osod i eistedd ar ei ddeheuulaw yn y nefolion leoedd, ymhell uwchlaw pob tywysogaeth ac awdurdod a gallu ac arglwyddiaeth, a phob teitl a geir, nid yn unig yn yr oes bresennol, ond hefyd yn yr oes sydd i ddod. Darostyngodd Duw bob peth dan ei draed ef, a rhoddodd ef yn ben ar bob peth i'r eglwys; yr eglwys hon yw ei gorff ef, a chyflawniad yr hwn sy'n cael ei gyflawni ym mhob peth a thrwy bob peth.

Mathew 25. 31-46

"Pan ddaw Mab y Dyn yn ei ogoniant, a'r holl angylion gydag ef, yna bydd yn eistedd ar orsedd ei ogoniant. Fe gesglir yr holl genhedloedd ger ei fron, a bydd ef yn eu didoli oddi wrth ei gilydd, fel y mae bugail yn didoli'r defaid oddi wrth y geifr, ac fe esyd y defaid ar ei law dde a'r geifr ar y chwith. Yna fe ddywed y Brenin wrth y rhai ar y dde iddo, 'Dewch, chwi sydd dan fendith fy Nhad, i etifeddu'r deyrnas a baratowyd ichwi er seiliad y byd. Oherwydd bûm yn newynog a rhoesoch fwyd imi, bûm yn sychedig a rhoesoch ddioid imi, bûm yn ddieithr a chymerasoch fi i'ch cartref; bûm yn noeth a rhoesoch ddiollad amdanaf, bûm yn glaf ac ymwelsoch â mi, bûm yng ngharchar a daethoch ataf.' Yna bydd y rhai cyfiawn yn ei ateb: 'Arglwydd,' gofynnant, 'pryd y'th welsom di'n newynog a'th borthi, neu'n sychedig a rhoi dioid iti? A phryd y'th welsom di'n ddieithr a'th gymryd i'n cartref, neu'n noeth a rhoi diollad amdanaf? Pryd y'th welsom di'n glaf neu yng ngharchar ac ymweld â thi?' A bydd y Brenin yn eu hateb, 'Yn wir, 'rwy'n dweud wrthyich, yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch.' "Yna fe ddywed wrth y rhai ar y chwith, 'Ewch oddi wrthyf, chwi sydd dan felltith, i'r tân tragwyddol a baratowyd i'r diafol a'i angylion. Bûm yn newynog ac ni roesoch fwyd imi, bûm yn sychedig ac ni roesoch ddioid imi; bûm yn ddieithr ac ni chymerasoch fi i'ch cartref, yn noeth ac ni roesoch ddiollad amdanaf, yn glaf ac yng ngharchar ac nid ymwelsoch â mi.' Yna atebant hwythau: 'Arglwydd,' gofynnant, 'pryd y'th welsom di'n newynog neu'n sychedig neu'n ddieithr neu'n noeth neu'n glaf neu yng ngharchar heb weini arnat?' A bydd ef yn eu hateb, 'Yn wir, 'rwy'n dweud wrthyich, yn gymaint ag ichwi beidio â'i wneud i un o'r rhai lleiaf hyn, nis gwnaethoch i minnau chwaith.' Ac fe â'r rhain ymaith i gosb dragwyddol, ond y rhai cyfiawn i fywyd tragwyddol."